

Strategaeth Bensaernïol



Ein nod

Mae ein Strategaeth Bensaernïol yn rhoi'r canllawiau y bydd yn rhaid i benseiri eu dilyn wrth ddylunio adeiladau ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar flociau adeiladu dylunio da

a chreu synnwyr o berthyn ar gyfer holl adeiladau Prosiect Wylfa Newydd, ond nid yw'n rhoi arddull bensaernïol benodol — y nod ydy cefnogi creadigrwydd ac arloesedd unigol y penseiri i ddylunio adeiladau unigryw.

Y prif elfennau

Nod y Strategaeth Bensaernïol ydy hyrwyddo dylunio cynaliadwy drwy:

- defnyddio deunyddiau sydd ar gael yn lleol pan fo'n bosibl gan ystyried sut mae arbed dŵr yn, nyluniad yr adeiladau
- defnyddio technoleg sy'n helpu adeiladau i gadw eu gwres yn y gaeaf a pheidio â gorboethi yn yr haf
- dyluniad ar gyfer oes gyfan yr adeilad gan gynnwys ystyried sut byddai modd ei addasu at ddibenion gwahanol a pha mor hawdd byddai modd ei ddymchwel er mwyn gallu aildefnyddio'r deunyddiau mewn prosiectau eraill

Mae'r strategaeth yn annog penseiri i ddylunio adeiladau mewn cyd-destun, sy'n golygu:

- creu dyluniadau sy'n addas i ddibenion yr adeilad fel dyluniadau syml ar gyfer adeiladau swyddogaethol fel garejys a warysau a defnyddio deunyddiau, siapiau a lliwiau'n fwy creadigol ac mewn ffordd ddifyr mewn adeiladau sy'n agored i'r cyhoedd
- gweithio gyda lefelau lloriau gwaelod gwahanol ac ystyried golygfeydd i'r safle ac allan o'r safle er mwyn helpu'r adeiladau i weddu i'r dirwedd leol
- ystyried sut bydd yr adeiladau'n edrych i'r rheini sy'n pasio wrth benderfynu ar eu cynllun a lleoliad y mynedfeydd

Strategaeth Bensaernïol

Mae'r strategaeth hefyd yn nodi detholiad cyfyngedig o ddeunyddiau i'w defnyddio yn nyluniadau'r adeiladau er mwyn sicrhau bod holl adeiladau Prosiect Wylfa Newydd yn rhannu nodweddion cyffredin:

- mae yna set benodol o ddeunyddiau lleol ar gyfer yr holl adeiladau, sy'n perthyn i ddau gategori:
 - **Deunyddiau cefndir:** modern, perfformiad da, swyddogaethol a hirhoedlog er mwyn ymdopi â hinsawdd agored gogledd Ynys Môn. Mae'r rhain yn cynnwys concrit lliw golau, waliau llen, paneli cyfansawdd wedi'u hinswleiddio, gwydr, toeau paneli wedi'u hasio

– **Deunyddiau amlwg:** wedi'u dewis yn ofalus oherwydd eu cysylltiad â threftadaeth ddiwydiannol Ynys Môn ac er mwyn adlewyrchu arddulliau adeiladau lleol. Bydd y deunyddiau hyn yn cael eu defnyddio i ychwanegu manylion, yn enwedig wrth fynedfeydd yr adeiladau a byddan nhw'n cynnwys wyneb copr, llechi wedi'u pentyrru a cherrig Cymreig

- mae detholiad o liwiau i'r penseiri eu defnyddio yn eu dyluniadau, sydd wedi cael eu dewis i ddarparu edrychiad ffres, glân a modern, yn ogystal ag adlewyrchu lliwiau o dirwedd gogledd Ynys Môn

Sut mae'n gweithio

Mae'r Strategaeth Bensaernïol yn nodi'r egwyddorion, ond yn rhoi'r hyblygrwydd i'r dylunwyr unigol eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol.

Mae'r lluniau hyn yn dangos amrywiaeth o arddulliau adeiladau gwahanol. Mae gan rai arddull sy'n fwy beiddgar ac mae'r rhai eraill wedi cael eu dylunio i weddu â'r hyn sydd o'u hamgylch. Mae'r cwbl yn dilyn canllawiau'r Strategaeth Bensaernïol.

Rydyn ni eisiau clywed eich barn am yr arddulliau pensaernïol hyn. Bydd eich adborth yn ein helpu i gwblhau cam nesaf y gwaith dylunio pensaernïol, sef paratoi briff dylunio ar gyfer pob un o adeiladau Prosiect Wylfa Newydd. Mae'r briff dylunio yn dehongli'r Strategaeth Bensaernïol ac yn ychwanegu manylion am ofynion penodol pob adeilad fel lleoliad yr adeilad; nifer, maint a mathau'r ystafelloedd, nifer y lloriau a chanllawiau manylach am yr arddull bensaernïol.

Adeilad gweinyddu



Canolfan ymwelwyr




Llety gweithwyr dros dro ar y safle



Mae enghraifft o'r paletau deunyddiau rydyn ni wedi'u creu yn cael eu dangos yn y canlynol:



Waliau llen wydr



Wyneb copr



Llechi wedi'u pentyrru



Llechi Cymreig



Cladin cyfansawdd



Concrit agored



Cerrig Cymreig



Brics peirianeg glas

Rhowch eich barn ar ein cynlluniau - gallwch chi roi eich adborth yn y digwyddiad hwn neu drwy ein gwefan: www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad